DYDDIEDIG 11 MAWRTH 2025

---

# GORCHYMYN

# GOLFTYN LANE, KELSTERTON COURT, VERMEER CLOSE, GOLFTYN DRIVE, HAFOD CLOSE, HOLLY CLOSE, HALS CLOSE A COLLEGE VIEW, CEI CONNAH

# (GWAHARDDIAD A CHYFYNGIAD AR AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO)

# (GORFODAETH SIFIL AC ATGYFNERTHU) (DIWYGIAD RHIF 66) 2025 CYNGOR SIR Y FFLINT

---

Katie Wilby,

Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),

Neuadd y Sir,

Yr Wyddgrug,

Sir y Fflint,

CH7 6NF

**GORCHYMYN**

**GOLFTYN LANE, KELSTERTON COURT, VERMEER CLOSE, GOLFTYN DRIVE, HAFOD CLOSE, HOLLY CLOSE, HALS CLOSE A COLLEGE VIEW, CEI CONNAH**

**(GWAHARDDIAD A CHYFYNGIAD AR**

**AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO)**

**(GORFODAETH SIFIL AC ATGYFNERTHU) (DIWYGIAD RHIF 66) 2025 CYNGOR SIR Y FFLINT**

Mae Cyngor Sir y Fflint wrth ddefnyddio'i bwerau dan Adrannau 1 (1), 2 (1)(2), 4 (2)(3) a Rhan IV o Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd ("Deddf 1984"), Deddf Rheoli Traffig 2004 ("Deddf 2004") a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

## ADRAN 1 – RHAGARWEINIOL

**<u>Enwi a chychwyn</u>**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 28 Mawrth 2025 ac fe'i adnabyddir fel Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint, GOLFTYN LANE, KELSTERTON COURT, VERMEER CLOSE, GOLFTYN DRIVE, HAFOD CLOSE, HOLLY CLOSE, HALS CLOSE A COLLEGE VIEW, CEI CONNAH (Gwaharddiad a Chyfyngiad ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodaeth Sifil ac Atgyfnerthu) (Diwygiad Rhif 66) 2025.

2. Yn dod i rym o'r dyddiad a nodir yn Erthygl 1 uchod, mae atodlen map AT69, Taflen Adolygu Rhif 2 yn disodli atodlen map AT69 Taflen Adolygu Rhif 1 ac atodlen map AT70, Taflen Adolygu Rhif 3, yn disodli atodlenni map AT70, Taflen Adolygu Rhif 2 ac mae'r holl atodlenni map eraill ynghyd â'r atodlenni map a grybwyllwyd eisoes a chynlluniau y cyfeirir atynt yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn yn cael eu hymgorffori yng Ngorchymyn (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Gorfodi Sifil a Chydgrynhoi) Cyngor Sir y Fflint 2013.

3. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongliad y Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

4. Yn y Gorchymyn hwn, ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad at Erthygl neu Atodlen â rhif, yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw ac

mae unrhyw gyfeiriad at gynllun yn gyfeiriad at gynllun sydd wedi'i gynnwys yn y Gorchymyn hwn.

**ATODLEN**
**Dim Aros ar Unrhyw Adeg**
**Cei Connah**

| Enw'r Ffordd | Atodlen Map | Taflen Adolygu |
|---|---|---|
| Golftyn Lane | AT69<br>AT70 | 2 (sy'n disodli Taflen Adolygu 1 o Orchymyn 2013)<br>3 (sy'n disodli Taflen Adolygu 2 o Orchymyn 2013) |
| Golftyn Drive | AT70 | 3 (sy'n disodli Taflen Adolygu 2 o Orchymyn 2013) |
| Kelsterton Court | AT70 | 3 (sy'n disodli Taflen Adolygu 2 o Orchymyn 2013) |
| Hals Close | AT70 | 3 (sy'n disodli Taflen Adolygu 2 o Orchymyn 2013) |
| Vermeer Close | AT70 | 3 (sy'n disodli Taflen Adolygu 2 o Orchymyn 2013) |
| Hafod Close | AT70 | 3 (sy'n disodli Taflen Adolygu 2 o Orchymyn 2013) |
| College View | AT69<br>AT70 | 2 (sy'n disodli Taflen Adolygu 1 o Orchymyn 2013)<br>3 (sy'n disodli Taflen Adolygu 2 o Orchymyn 2013) |
| Holly Close | AT70 | 3 (sy'n disodli Taflen Adolygu 2 o Orchymyn 2013) |

218969

Rhoddwyd **SÊL GYFFREDIN** )
**CYNGOR SIR Y FFLINT** )
yn y fan hon )
ar y 11 diwrnod hwn o Mawrth 2025 )
yng ngŵydd:- )

**Y CADEIRYDD**

**~~PRIF SWYDDOG (LLYWODRAETHU)~~**

**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

**~~UWCH GYFREITHIWR~~**